# WILLIAMS, DAVID DAVID (1862 - 1938), gweinidog (MC) ac awdur

**Enw:** David David Williams
**Dyddiad geni:** 1862
**Dyddiad marw:** 1938
**Priod:** Clara A. Williams (née Jones)
**Rhiant:** Grace Williams
**Rhiant:** David Williams
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog (MC) ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd yng Ngarthlwynog, Croesor, Meirionnydd, mab David a Grace Williams. Addysgwyd ef yn ysgol ramadeg Gelli-gaer, Coleg y Bala, ac yng Ngholegau'r Brifysgol yn Aberystwyth a Chaerdydd. Ordeiniwyd ef yn 1891, a bu'n gweinidogaethu ym Mheniel, Ffestiniog (1890-96); Croesoswallt (1896-1906); Moss Side, Manceinion (1906-15); a David St. (wedi hynny Belvidere Road), Lerpwl (1915-38). Priododd, c. 1896-97, Clara A. Jones, Ashlands; ni bu iddynt deulu. Aeth i fyw i Brestatyn ar ôl ymddeol, ac yno y bu farw 3 Gorffennaf 1938.

Yr oedd yn r amlwg yn ei Gyfundeb, a bu'n llywydd Sasiwn y Gogledd (1931). Ymhyfrydai'n fawr mewn chwilota, a chafodd radd M.A. Prifysgol Lerpwl, am draethawd ar ' Vaticination in Welsh literature '. Ef oedd golygydd *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd* am dymor (1930-34). Cystadleuai'n gyson ar draethodau ar faterion llenyddol a hanes yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a chyhoeddwyd llawer o'i draethodau arobryn gan Gymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol Cyfrannodd ysgrifau i'r *Brython*, *Y Beirniad*, *Y Genhinen*, *Yr Efrydydd*, a *Chylch. Hanes y MC.* Dyma restr o'i lyfrau: *Dyfyniadau llên Cymru* (1909); *Deuddeg o feirdd y Berwyn* (1910); *Twm o'r Nant* (1911); *Geirfa prifeirdd* (1911); *Dylanwad y Rhufeiniaid ar iaith, gwareiddiad a gwaedoliaeth y Cymry* (1912); *Hanes mynachdai gogledd Cymru* (1914); *Cymry enwog cyfnod y Tuduriaid* (1914); *Addysg Cymru yn y Canol Oesoedd* (1914); *Hanes dirwest yng Ngwynedd* (1921); *Thomas Charles Edwards* (1921); *Cofiant T. J. Wheldon* (1925); *Hanes Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd* (1927).

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau


*Who's who in Wales* (1921), 504

*Y Drysorfa*, 1931, 336-9

*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 1928, 51-3

*Y Goleuad*, 13, 20 Gorffennaf 1938

*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1939, 215-26


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732788


**Dyddiad cyhoeddi:** 1997



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu